

Grŵp Gwybodaeth Tai – papur diweddar Mai 2019

Mae rhestr lawn o'n cyhoeddiadau diweddaraf ar gael ar [ein calendr cyhoeddiadau](#)

1. Ystadegau tai

Cyhoeddiadau diweddar

- Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan 2018 – datganiad blynyddol – 5 Chwefror 2019
- Cymorth ar gyfer Gwelliannau Tai, 2017-18 – datganiad blynyddol – 7 Chwefror 2019
- Camau Meddiannu Morgeisi a Landlordiaid, Hydref – Rhagfyr 2018 – (Prif Ganlyniadau) – 15 Chwefror 2019
- Llefydd Gwag, Gosodiadau ac Ôl-ddyledion Tai Cymdeithasol, 2017-18 – datganiad blynyddol – 6 Mawrth 2019
- Adeiladu Tai Newydd, Hydref i Ragfyr 2018 – (Prif Ganlyniadau) 7 Mawrth, 2019
- Digartrefedd, Hydref – Rhagfyr 2018 – (Prif Ganlyniadau) 21 Mawrth 2019
- Cymorth i Brynu – Cymru, 2018-19 – datganiad blynyddol – 25 Ebrill 2019

Cyhoeddiadau arfaethedig

- Rhenti yn y Sector Preifat 2018 – datganiad blynyddol – 22 Mai 2019
- Adeiladu Tai Newydd, 2018-19 – datganiad blynyddol – 6 Mehefin 2019
- Gwerthiannau Tai Cymdeithasol 2018-19 – datganiad blynyddol – 11 Gorffennaf 2019
- Cymorth i Brynu Cymru Ebrill i Fehefin 2019 – prif ganlyniadau – 24 Gorffennaf 2019
- Digartrefedd, 2018-19 – datganiad blynyddol – 25 Gorffennaf 2019

Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar [gwefan ystadegau ac ymchwil](#).

Digartrefedd

Mae [Tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth](#) yn cynnal ac yn datblygu egwyddorion a safonau cyson sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn ar gyfer data gweinyddol. Mae'r tîm cysoni wedi bod yn ystyried pa mor ymarferol yw hi i bennu diffiniad cyson o ddigartrefedd ar gyfer y DU gyfan a chafodd yr [adroddiad cychwynnol](#) ar y canfyddiadau ei gyhoeddi ddydd Iau 28 Chwefror 2019.

Ar 25 Chwefror, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wybodaeth am y canlynol: '[Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr, 2013-2017 - data lefel ALI](#)'.

Cafodd y [prif ystadegau chwarterol](#) diweddaraf ar gyfer digartrefedd statudol yng Nghymru eu cyhoeddi ar 21 Mawrth, gyda thablau ategol StatsCymru. Gwnaed nifer o newidiadau/gwelliannau i'r fformat a'r cynnwys a gafodd eu croesawu gan gydweithwyr polisi. Rydym yn gweithio i gyhoeddi'r datganiad ystadegol blynyddol cyflawn nesaf ar 25 Gorffennaf. Rydym yn bwriadu gwneud rhai gwelliannau i hygyrchedd y wybodaeth yn y datganiad yn ogystal â gwelliannau i'r wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad Ansawdd cysylltiedig yn unol â gwiriad cydymffurfiaeth diweddar y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.

Digartrefedd unigol

Mae Dr Ian Thomas (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru) yn cynnal prosiect ar hyn o bryd sy'n edrych ar ba mor ymarferol yw hi i gyflwyno trefniadau i gasglu, cyhoeddi a dadansoddi data ar lefel unigol mewn perthynas â digartrefedd statudol yng Nghymru. Caiff y prosiect ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a CaCHE. Disgwylir i'r adroddiad cychwynnol ar y canfyddiadau gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019.

Grŵp ystadegau tai trawslywodraethol

Cyhoeddodd y Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol adroddiad pwnc yn canolbwyntio ar y [sector rhentu preifat](#) ar 18 Ionawr 2019. Mae rhagor o wybodaeth [ar gael](#), gan gynnwys Fframwaith Cysyniadol i'r DU gyfan ar gyfer ystadegau tai a chynllunio ynghyd â [chynllun gwaith](#) cyfredol y grŵp.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau adroddiad ar ei hadolygiad strategol o werth cyhoeddus ystadegau ar Dai a Chynllunio yn y DU. Yn dilyn hyn, cafodd y Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol ei sefydlu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Y tro diwethaf i'r grŵp gyfarfod oedd ar 10 Medi 2018 a chafodd blog ar waith y grŵp ei gyhoeddi ar [wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth](#) ar 26 Medi 2018 sydd, unwaith eto, ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Ym mis Awst, cafodd [Tudalen We Ystadegau Tai a Chynllunio Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU](#) ei lansio. Mae'r dudalen yn cynnwys dolenni i Drosolwg a Chanllaw ar Ystadegau Tai a Chynllunio.

Angen am dai

Cafodd erthygl ystadegol ar '[Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol \(yn seiliedig ar 2018\)](#)' ei chyhoeddi ar 30 Ionawr 2019 gyda thablau ategol StatsCymru. Mae'r erthygl ystadegol yn cyflwyno amcangyfrifon, sy'n seiliedig ar 2018, o'r angen cyffredinol am dai ychwanegol yng Nghymru rhwng 2018/19 a 2037/38. Mae amcangyfrifon o'r angen am dai yn hollbwysig er mwyn cynllunio i'r dyfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol a chânt eu defnyddio i lywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac unrhyw bolisïau tai a ddatblygir. Bwriedir cyhoeddi erthygl arall sy'n cynnwys amcangyfrifon o'r galw am dai ar sail deiliadaeth (marchnad/fforddiadwy) ym mis Mehefin.

Cymorth i Brynu-Cymru

Cafodd y [datganiad blynyddol](#) diwethaf ar Cymorth i Brynu-Cymru ei gyhoeddi ar 25 Ebrill 2019, gyda thablau ategol StatsCymru. Ar ôl trafod â chydweithwyr polisi, gwnaed nifer o newidiadau i fformat a chynnwys y datganiad gan gynnwys ychwanegu data blynyddol (ar gyfer y 3 blynedd diwethaf) at y tablau er mwyn gallu llunio cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn a monitro'r targed 5 mlynedd yn well.

Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

Ers cyhoeddi [prif ganlyniadau](#) Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, mae dau adroddiad pellach wedi'u cyhoeddi:

- [Asesiad o elfennau o'r Safon Ansawdd Tai Cymru \(SATC\)](#)
- [Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru \(prif ganlyniadau\) 2018](#)

Bydd adroddiad mwy manwl ar amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gael yn ystod yr haf a bydd adroddiadau pwnc-benodol pellach o Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn dilyn drwy gydol y flwyddyn.

Mae data SATC wedi'i hychwanegu at y dangosydd canlyniadau ar ein [tudalennau gwe](#), ac mi fydd yn cael ei ehangu ymhellach wrth i ragor o ddadansoddiadau gael eu cwblhau.

Bydd y set honno o ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru nad yw'n datgelu hunaniaeth unigolion ar gael ar Archif Data'r DU yn fuan, a bydd data manylach ar gael yn uniongyrchol gan [dîm yr Arolwg](#), o dan drwydded arbennig.

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (ADSD)

Ar ôl llunio fersiwn prawf cysyniad o Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai yn 2018, arafodd y gwaith yn yr hydref er mwyn canolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae gwaith ar Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai bellach wedi aildechrau ac rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno achosion busnes i SYG ar rannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys data CThEM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a VOA. Caiff data presennol Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai eu symud i'r llwyfan gwelyta hirdymor (Llwyfan e-Ymchwil Diogel yn y DU) yn ystod y gwanwyn a byddwn yn ceisio ychwanegu gwybodaeth am ddefnydd ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalau ac yn ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol er mwyn cael mynediad at eu data rheoli stoc.

2. Ymchwil tai

Cafodd yr adroddiad canlynol ei gyhoeddi ers y diweddariad diwethaf:

[Adolygiad o'r Polisi Rhent: Adroddiad ar Ganfyddiadau Cychwynnol](#)

Cafodd yr Adolygiad ei gynnal er mwyn penderfynu p'un a yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn addas at y diben ac yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau allanol.

Mae'r Adroddiad ar Ganfyddiadau Cychwynnol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil hyd yma. Mae angen gwneud gwaith dilysu a gwirio terfynol cyn y gellir ystyried mai'r rhain yw'r canfyddiadau terfynol. Disgwylir i'r adroddiad terfynol llawn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2019.

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar waith:

- Mae gwerthusiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel. Bydd yn ceisio deall effeithiau cynnar deddfwriaeth ar bobl ifanc sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref wrth i'w dyddiad rhyddhau agosáu.
- Mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r polisi o ran rhent tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried p'un a yw'r polisi rhent presennol yn addas at y diben ac yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol. Cafodd y canfyddiadau cychwynnol eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2019.
- Mae prosiect ar waith i ymchwilio i achosion o droi tenantiaid allan o dai cymdeithasol. Bydd y prosiect yn ceisio casglu data ar gyfraddau'r achosion hyn a'r rhesymau drostynt, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o'r prosesau y mae landlordiaid cymdeithasol wedi eu rhoi ar waith er mwyn helpu tenantiaid i osgoi cael eu troi allan.
- Mae Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru yn mynd rhagddo. Bydd hwn yn adolygu sut y caiff Angen Blaenoriaethol ei weithredu ar hyn o bryd, ond bydd hefyd yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer newid. Caiff effaith pob opsiwn ar awdurdodau lleol, darparwyr tai, y trydydd sector ac, wrth gwrs, y rhai sy'n cael cymorth tai ei hasesu.

Mae'r holl adroddiadau ymchwil ym maes tai ar gael ar [gwefan ystadegau ac ymchwil](#).

3. Cynllunio

Argraffiad newydd o Bolisi Cynllunio Cymru

Cafodd argraffiad newydd o [Bolisi Cynllunio Cymru](#), sef polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr y llynedd ac mae ar gael drwy ddilyn y dolenni isod. Mae'n seiliedig ar helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ganolbwyntio ar greu lleoedd fel elfen allweddol i gyflawni dyheadau'r Ddeddf ac ysgogi gwaith i baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Mae gwaith ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn mynd rhagddo ar ôl yr ymgynghoriad ar y 'Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir' a gynhaliwyd rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno ym mis Gorffennaf 2019.

Mae mwy o fanylion ar gael ar [gwefan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#).

Adolygiad o ddarparu tai drwy'r system gynllunio

Cynhaliwyd cam cyntaf yr adolygiad hwn, sef y 'Cais am Dystiolaeth', rhwng 18 Gorffennaf a 10 Hydref y llynedd. Mae'r ymatebion bellach wedi cael eu dadansoddi ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut i symud ymlaen â'r adolygiad.

Mae'r adolygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

- Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â chynllun datblygu cyfredol – sef y dull rheoli datblygu ar sail cynllun;
- Mae'n rhaid pennu'r gofyn am dai yn unol â'r dystiolaeth, ac mae'n rhaid dangos bod modd darparu'r tai ar yr holl safleoedd a nodir;
- Mae'n rhaid i drefniadau monitro a'r camau gweithredu cysylltiedig gryfhau'r dull rheoli datblygu ar sail cynllun.

4. Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Ystadegau tai: ar agor

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau ar agor ar hyn o bryd ar ystadegau Tai.

Tai ac adfywio: wedi cau'n ddiweddar

[Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai](#)

Ymgynghoriad ar safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau i dai. Nod y safonau hyn yw sicrhau mwy o gysondeb o ran yr hyn a ddarperir. Byddant yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau a therapyddion galwedigaethol. Caeodd yr ymgynghoriad ar 19 Rhagfyr 2018 ac mae'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[Rhoi'r newid i gyfradd y comisiwn ar gartrefi mewn parciau ar waith](#)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar sut mae rhoi'r penderfyniad i ostwng cyfraddau comisiwn ar gartrefi mewn parciau ar waith. Caeodd yr ymgynghoriad ar 14 Rhagfyr 2018 ac mae'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Cynllunio: Ar agor

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau ar agor ar hyn o bryd ym maes Cynllunio.

Judith David

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

2 Mai 2019